# HUGHES, WILLIAM (1757 - 1846), gweinidog gyda'r Annibynwyr, emynydd, a cherddor

**Enw:** William Hughes
**Dyddiad geni:** 1757
**Dyddiad marw:** 1846
**Priod:** Jane Hughes (née Jones)
**Plentyn:** John Hughes
**Rhiant:** Jane Jones
**Rhiant:** Hugh Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr, emynydd, a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Cerddoriaeth; Barddoniaeth
**Awdur:** Griffith Jones

ail fab Hugh Jones a Jane Williams (gweddw), Gadlys, Llanwnda (Arfon); bedyddiwyd 25 Mehefin 1757. Priododd â Jane Jones yn Llanwnda, 20 Chwefror 1783, a bedyddiwyd eu mab John yno, 2 Rhagfyr 1784. Ymunodd a'r Annibynwyr yng Nghaernarfon yn amser y deffroad dan George Lewis; codwyd ef yn bregethwr cynorthwyol yn 1788, wedi ymadawiad George Lewis (1794), penodwyd ef yn efengylydd teithiol, a chododd drwydded bregethu, yn y frawdlys chwarterol, ar 17 Gorffennaf 1795. Bu cymaint llwyddiant ar ei lafur fel na ellir adrodd hanes eglwysi hynaf yr Annibynwyr yn Arfon, Eifionydd, a Dyffryn Conwy heb ei enwi ef yn un o'r cyfryngau pennaf yng nghychwyniad yr achosion. Adnabyddid ef ar ei deithiau fel ' Hughes, Brynbeddau ' - bu'n amaethu Brynbeddau (Llanwnda) gyda'i dad ar ôl priodi, ac ef oedd y tenant o 1794 hyd 1814. Tua 1815 symudodd i d a gododd gerllaw capel Saron (1812) yn yr un plwyf, ac ar 2 a 3 Gorffennaf 1821, ac yntau'n 64 oed, urddwyd ef yn weinidog Saron. Ni lwyddodd cystal fel gweinidog ag fel efengylydd, a darfu ei gyswllt â Saron ymhell cyn ei farw - ymunodd yntau ag eglwys y Bontnewydd, un arall o'r eglwysi a blanesid ganddo. Cyfansoddodd emynau gwych, a chyhoeddwyd rhai tonau ganddo, yn *Y Dysgedydd*. Bu farw 9 Mawrth 1846; yn 1858 cododd eglwysi Annibynnol y sir gistfaen ar ei fedd ym mynwent y llan yn Llanwnda.

## Awdur

**Y Parchedig Griffith Jones**, (1886 - 1964)

## Ffynonellau


Cofrestr plwyf Llanwnda

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 246-8

H. Ivor Jones, *Hanes Annibyniaeth yn Sir Gaernarfon hyd ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Llyfr cyntaf* (Caernarfon 1897), 98-9

David Morgan, *Hanes Ymneillduaeth yn cynnwys olrheiniad manwl o'r egwyddorion hanfodol a'r ymarferiadau perthynol i'r cyfundraeth uchod ei ddechreuad a'i ledaeniad llwyddianus yn y deyrnas hon, yn wyneb y gwrthwynebiadau mwyaf cyffrous, yn nghyda'i sefyllfa bresenol yn enwedig yn Nghymru* (Dolgellau 1855), 280-1

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), i, 547

*Llawlyfr Undeb yr Annibynwyr* (1930), 1930, 50-4

*Cofiant y Parch. David Griffith, Bethel, Arfon* (1879)

*Seren Gomer*, 1821, 315

*Y Dysgedydd*, Ebrill 1846

*Cymru (O.M.E.)*, Gorffennaf 1893

W. Williams, *Blaenor wrth ei ddiwrnod gwaith cofiant Edward Williams, Talysarn* (Caernarfon 1882)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734639

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu